Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Angharad Davies**

**Penarth**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

12/04/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Y gwasanaeth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwarchodwr Plant |
| Lleoedd cofrestredig | 8 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 5 Mawrth 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| Ydy'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Rhagorol** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Rhagorol** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn mwynhau eu hamser yn y lleoliad hwn yn fawr. Maent yn teimlo'n ddiogel iawn, yn hapus ac yn gyfforddus. Maent yn mwynhau eu chwarae yn fawr ac yn dangos lefelau ymgysylltu uchel yn eu gweithgareddau dewisol. Mae ganddynt lais cryf yn y lleoliad hwn. Mae ganddynt gydberthnasau cadarnhaol a charedig â'r gwarchodwr plant ac â'i gilydd.

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth ragorol o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae'n garedig ac yn fagwrus gyda'r plant ac yn rheoli eu hymddygiad yn dda iawn. Mae'r gwarchodwr plant yn hyrwyddo chwarae, dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol. Mae'r gwarchodwr plant yn annog tueddiadau dysgu cadarnhaol fel dyfalbarhad a chanolbwyntio.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac mewn cyflwr da. Mae'r safle'n groesawgar, yn gartrefol ac wedi'i drefnu'n dda. Ar y cyfan, mae asesiadau risg a gwiriadau diogelwch addas ar waith. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth o adnoddau diddorol sy'n ehangu cyfleoedd chwarae a datblygu'r plant ymhellach.

Mae'r gwarchodwr plant yn llawn cymhelliant ac yn ymrwymedig. Mae'n amlwg ei bod yn mwynhau ei rôl. Mae ei gweledigaeth a'i hymdeimlad o ddiben yn cynnal gwelliannau ac yn hyrwyddo canlyniadau rhagorol i'r plant. Mae'n cynnal ei datblygid proffesiynol ei hun gan sicrhau ei bod yn parhau i ddatblygu a gwella yn ei rôl. Mae wedi meithrin cydberthnasau cryf â'r rhieni ac yn gweithio'n galed i sicrhau bod y plant yn cael eu meithrin mewn amgylchedd cartref diogel ac ysgogol.

| Llesiant | Rhagorol |
|---|---|

Mae'r plant yn gyfathrebwyr hyderus a diddorol ac mae ganddynt lais cryf iawn yn y lleoliad. Maent yn hapus yn gwneud eu dewisiadau eu hunain am yr hyn yr hoffent ei wneud a sut yr hoffent dreulio eu hamser. Gall y plant fynegi eu barn yn hyderus ac yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt. Caiff safbwyntiau a diddordebau'r plant eu parchu'n fawr. Er enghraifft, maent yn cyfrannu at y rheolau cartref ac yn atgoffa eu hunain o'r disgwyliadau ymddygiad hyn wrth chwarae.

Mae'r plant yn teimlo'n ddiogel, yn hapus, a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Maent wedi setlo'n dda ac mae'n amlwg bod ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac mae pob un ohonynt yn cyfeirio at y gwarchodwr plant fel modryb. Maent yn teimlo'n gartrefol iawn ac yn gyfarwydd iawn â'u harferion. Caiff y plant eu cynnwys wrth ddewis strwythur y dydd. Er enghraifft, gwnaeth y plant helpu'n bwrpasol wrth dacluso, a gwnaethant benderfynu eu bod yn barod ar gyfer amser byrbryd cyn ymweld â'r parc. Mae'n amlwg eu bod yn cael gofal gan warchodwr plant magwrus sy'n eu hadnabod yn dda. Maent yn meithrin cydberthnasau cynnes a charedig â hi ac mae'n amlwg eu bod yn mwynhau bod yn y lleoliad. Caiff y plant eu hannog i siarad am sut ddiwrnod maen nhw wedi ei gael yn yr ysgol.

Mae'r rhyngweithio rhwng y plant a'r gwarchodwr plant yn gyson gadarnhaol. Mae'r plant yn gwenu ac yn chwerthin wrth iddynt ganu gyda'r gwarchodwr plant yn ystod gweithgareddau neu ar y ffordd yn ôl o'r ysgol. Cânt eu trin â pharch ac mae'r gwarchodwr plant yn rhoi ystyriaeth i'w safbwyntiau. Mae'r plant yn dangos empathi a charedigrwydd tuag at ei gilydd. Er enghraifft, mae'r plant yn gwenu, yn dal dwylo ac yn cofleidio ei gilydd mewn ffordd fagwrus iawn. Mae'r plant yn rhyngweithio'n llwyddiannus ac yn dysgu sut i rannu â'i gilydd. Er enghraifft, pan oedd dau blentyn eisiau bod y cyntaf i chwarae Lotto, yn fuan gwnaethant gytuno y byddent yn aros eu tro ac yn chwarae fwy nag unwaith.

Mae'r plant yn hyderus wrth ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt. Maent yn mwynhau eu cyfleoedd chwarae a dysgu yn fawr iawn Er enghraifft, dangosodd y plant fwynhad ac roeddent yn canolbwyntio am gyfnod estynedig pan roeddent yn ymarfer synnau llythrennau a sut i ffurfio llythrennau, yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae rhyddid gan y plant i archwilio eu hamgylchedd dan do yn ddiogel. Cânt gyfleoedd da i ddechrau eu chwarae ac i ddylanwadu ar eu gweithgareddau. Er enghraifft, dewisodd dau blentyn i wisgo eu gwisgoedd chwarae rôl ac i chwarae yn yr awyr agored gyda'r ceir bach a'r sgwteri. Gall y plant hefyd ddewis ymlacio a chael cyfnodau tawel.

Mae'r plant yn cael eu cefnogi'n dda a'u hannog i ddatblygu eu hannibyniaeth. Pan fyddant yn mynd i'r ystafell ymolchi i olchi eu dwylo i fyny'r grisiau, caiff hyn ei ddefnyddio fel cyfle i annog y plant i wneud hyn yn annibynnol. Mae'r plant yn eistedd yn dda gyda'i gilydd wrth y bwrdd ar gyfer amser bwyd a gallant fwydo eu hunain yn fedrus. Cânt eu hannog i gymryd rhan yn y broses gwneud penderfyniadau ar y ffordd maent yn treulio eu hamser yn y lleoliad. Mae hyn yn annog annibyniaeth y plant ac yn codi eu hunan-barch.

| **Gofal a Datblygiad** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth ragorol o'i rôl a'i chyfrifoldebau i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Mae ganddi ddealltwriaeth glir o'r gweithdrefnau i'w dilyn pe bai angen iddi wneud atgyfeiriad diogelu, ac mae wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ar ddiogelu ar gyfer gwarchodwyr plant. Mae systemau effeithiol ar waith er mwyn cofnodi damweiniau, digwyddiadau ac i roi meddyginiaethau. Mae arferion glanhau effeithiol a chadarn ar waith. Caiff arferion golchi a diheintio dwylo eu cynnal yn rheolaidd a chaiff gweithdrefnau newid cewynnau eu dilyn yn briodol. Mae'r gwarchodwr plant yn blaenoriaethu llesiant a diogelwch y plant ac mae ganddi dystysgrifau cymorth cyntaf pediatrig a hylendid bwyd cyfredol. Mae'n cynnig bwydydd iach ac yn annog y plant i ddatblygu dealltwriaeth o fwyta'n iach, gan roi amrywiaeth dda iddynt gael dewis ohono. Mae'n annog llawer o weithgareddau symud ac awyr agored i hybu sgiliau echddygol bras a datblygiad corfforol y plant. Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol ac yn cynnal ei rôl yn broffesiynol ac yn y ffordd orau bosibl. Mae'n ymwybodol iawn o anghenion unigol y plant yn ei gofal.

Mae'r gwarchodwr plant yn garedig ac yn fagwrus iawn tuag at y plant. Mae'n rheoli ymddygiad y plant yn dda iawn gan ddefnyddio llais tyner a digon o ganmoliaeth i atgyfnerthu ymddygiad cadarnhaol. Mae'n galluogi'r plant i gywiro eu hymddygiad ac i wneud y penderfyniadau cywir. Er enghraifft, gofynnodd i'r plant atgoffa eu hunain o reolau'r cartref a rhoi gwybod iddi am yr hyn roedd angen iddynt ei wneud yn wahanol a pham. Mae'r gwarchodwr plant wedi meithrin cydberthnasau ardderchog â'r plant yn ei gofal ac mae'n amlwg bod gan y plant feddwl mawr ohoni. Mae gan y gwarchodwr plant ddealltwriaeth ardderchog ac mae'n wybodus ynghylch cam datblygu pob plentyn. Mae'n fodel rôl ardderchog ac mae wedi creu amgylchedd hamddenol, magwrus a chartrefol lle mae'r plant yn ffynnu yno. Mae'r gwarchodwr plant yn rhoi adborth sy'n annog dysgu cadarnhaol, fel dyfalbarhad a chanolbwyntio. Cafodd hyn ei weld ar sawl achlysur yn ystod yr arolygiad. Er enghraifft, byddai'n dweud wrth y plant *“Yes you can do it, I know you can, keep trying.”* Mae hefyd yn amlwg bod y gwarchodwr plant yn rhoi esiampl o adborth cadarnhaol gan fod y plant yn defnyddio hynny i gefnogi ei gilydd.

Mae'r gwarchodwr plant yn hybu dysgu a datblygiad y plant yn effeithiol iawn. Mae'n cynllunio amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae diddorol yn unol â diddordebau unigol y plant. Er enghraifft, mae wedi gwrando ar yr adborth a roddir gan y plant yn ei holiadur diweddaraf ac mae'n deall bod gan sawl un o'r plant ddiddordeb mewn gweithgareddau celf a chrefft. Felly, mae'n cynllunio cyfleoedd sy'n eu galluogi i ddatblygu eu sgiliau yn yr ardal. Er enghraifft, crefft Pasg, patanau Mehndi ar gyfer Diwali, cardiau Santes Dwynwen, basgedi Eid a lanterni'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cardiau datblygiadol yn ofalus, gan wneud arsylwadau ar sail gwybodaeth a nodi'r camau

nesaf yn nysgu'r plant. Caiff cofnodion datblygiadol unigol eu diweddaru'n rheolaidd ac maent yn darparu darlun holistaidd o gynydd pob plentyn.

## Yr Amgylchedd Da

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod yr amgylchedd yn lân ac mewn cyflwr da y tu mewn a'r tu allan. Mae'r gwarchodwr plant yn cadw cofnod o ymwelwyr â'r safle. Mae'r ardal awyr agored yn ddiogel, ac mae'r drws ffrynt dan glo. Mae'r gwarchodwr plant yn cynnal ymarferion tân rheolaidd, fel bod y plant yn gyfarwydd â'r arferion. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys yr holl fanylion perthnasol megis amseroedd a sylwadau at ddibenion adolygu. Mae'r gwarchodwr plant yn trefnu ymweliad blynyddol gan y Gwasanaeth Tân. Fodd bynnag, nid oes cofnodion ysgrifenedig o'r camau gweithredu o ganlyniad i'r ymweliadau hyn. Mae'n goruchwylio'r plant yn dda ac yn deall y gwahaniaeth rhwng risg dderbyniol ac annerbyniol ar gyfer grŵp oedran y plant y mae'n gofalu amdanynt. Mae asesiadau risg priodol ar waith ar gyfer pob rhan o'r cartref a'r ardd.

Mae'r lleoliad yn groesawgar, yn drefnus ac yn gartrefol. Mae'r plant yn cael budd o amrywiaeth dda o adnoddau. Mae ganddynt ddigon o ofod llawr i chwarae wrth symud rhwng yr ystafell chwarae a'r ystafell fwyta. Gall y plant symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd awyr agored a dan do, a gallant ddefnyddio'r ystafell ymolchi i fyny'r grisiau os bydd angen. Mae'r lleoliad mewn cyflwr da gyda systemau gwresogi ac awyru da, yn dibynnu ar y tymheredd. Mae'r gwarchodwr plant yn defnyddio'r ardal chwarae yn yr awyr agored yn aml, ac mae mewn cyflwr da ac yn drefnus. Mae'r gwarchodwr plant yn darparu amrywiaeth dda o adnoddau diddorol yn yr awyr agored, sy'n ehangu cyfleoedd chwarae a datblygu corfforol y plant. Er enghraifft, mae tŷ chwarae sy'n llawn pramiau a doliau, cegin, ceir bach a sgwteri, swing-bêl a sleid.

Dan do, mae'r gwarchodwr plant yn annog y plant i ddefnyddio amrywiaeth eang o deganau a chyfarpar chwarae o ansawdd da, sy'n addas ar gyfer eu hanghenion unigol. Mae'n sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar amrywiaeth o gyfarpar sy'n addas ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Caiff y plant hŷn sy'n cael darpariaeth ar ôl ysgol gyfleoedd i gymryd rhan mewn gemau bwrdd, gweithgareddau crefft ac adnoddau eraill sy'n briodol i'w hoedran. Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau bod y plant yn gallu cael gafael ar lyfrau ac adnoddau Cymraeg, ac mae'n hyrwyddo'r Gymraeg yn ei lleoliad. Mae hefyd yn annog y plant i sgwrsio â'i gilydd gan ddefnyddio Cymraeg sylfaenol yn achlysurol.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth **Rhagorol**

Mae datganiad o ddiben clir ar waith, sy'n rhoi gwybodaeth gywir a manwl i'r rhieni. Mae'r polisïau a'r gweithdrefnau yn glir, yn drefnus dros ben, a chânt eu rhoi ar waith yn dda. Mae'r gwarchodwr plant yn rheoli ei lleoliad yn unol â'r rheoliadau a'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Mae'r gwaith papur i gyd yn hynod drefnus. Mae'r gwarchodwr plant yn meddu ar y cymwysterau addas ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer ei gwasanaeth. Mae ganddi ddiwylliant cryf o ddatblygiad personol parhaus ac mae wedi cwblhau nifer o gyrsiau hyfforddiant ers yr arolygiad blaenorol.

Mae'r gwarchodwr plant yn monitro ansawdd ei gwasanaeth ac yn cynllunio ar gyfer gwelliannau yn effeithiol iawn. Mae'n gofyn i'r rhieni a'r plant am adborth ac yn defnyddio'r wybodaeth i lunio adroddiad blynyddol ar ansawdd y gofal sy'n nodi'r meysydd i'w datblygu. Mae holiaduron y gwarchodwr plant yn dangos lefelau uchel iawn o foddhad gan y rhieni a'r plant.

Mae'r gwarchodwr plant yn sicrhau y caiff ei datblygiad proffesiynol parhaus ei gynnal drwy ymgymryd â rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr. Mae'n sicrhau bod yr holl hyfforddiant gorfodol yn gyfredol, megis diogelu, diogelwch bwyd a chymorth cyntaf. Ar ben hynny, yn ddiweddar mae wedi ennill tystysgrif ‘Safonau Ansawdd ar gyfer Lleoliadau Gofal Plant’, a gyflwynir gan ei chyngor lleol. Mae'r gwarchodwr plant yn brofiadol dros ben ac yn llawn gwybodaeth, ac mae wedi sefydlu system ardderchog i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â'r holl agweddau ar y gofal a ddarperir.

Mae'r gwarchodwr plant yn hybu cydberthnasau cadarnhaol â'r rhieni ac yn yr ugain mlynedd y mae wedi bod yn gwarchod plant, nid oes unrhyw bryderon wedi cael eu codi i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC). Mae'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r rhieni ar lafar, drwy negeseuon preifat, a thrwy negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae'r gwarchodwr plant yn gwneud defnydd da o'i chymuned leol ac yn cymryd rhan mewn teithiau diddorol ac ysgogol sy'n fuddiol ar gyfer datblygiad a dysgu'r plant. Er enghraifft, defnyddio'r llyfrgell a'r parc lleol, canolfannau chwarae dan do, amgueddfeydd ac ymweliad bythgofiadwy â Chastell Caerdydd lle gwnaeth hi a'r plant gwrdd â'r Brenin.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 22 – Yr amgylchedd | Sicrhau bod yr holl gofnodion ysgrifenedig yn cael eu cadw ar gyfer asesiadau risg tân a'r cynlluniau gweithredu, ac i adolygu'r trefniadau cadw cofnodion presennol ar gyfer yr ymarferion tân. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Ymchwilio i adnoddau er mwyn hybu chwilfrydedd a chreadigrwydd a'u gwneud i gyd yn hygyrch yn unol â phriodoldeb oedran. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 17/05/2024